

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r
A5 (Ger Llanrwst, yn Siroedd
Conwy, Gwynedd a Dinbych)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Dros Dro ar Gerbydau) 2019

The A470 and A5 Trunk Roads
(Near Llanrwst, in the Counties of
Conwy, Gwynedd and
Denbighshire) (Temporary
Prohibitions and Restrictions of
Vehicles) Order 2019

Gwnaed 10 Mehefin 2019
Yn dod i rym 18 Mehefin 2019

Made 10 June 2019
Coming into force 18 June 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A470 a'r A5, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 and A5 Trunk Roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A5 (Ger Llanrwst, yn Siroedd Conwy, Gwynedd a Dinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro ar Gerbydau) 2019 a daw i rym ar 18 Mehefin 2019.

1. The title of this Order is the A470 and A5 Trunk Roads (Near Llanrwst, in the Counties of Conwy, Gwynedd and Denbighshire) (Temporary Prohibitions and Restrictions of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 18 June 2019.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy a chefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r luoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 18 Mehefin 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road and the A5 London to Holyhead trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 08:00 hours on the 18 June 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth sy'n uwch na 5.0 metr neu'n lletach na 3.0 metr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 neu 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

9. (1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle, bearing a load greater than 5.0 metres in height or 3.0 metres wide on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

5. No person may, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order during the prohibition period at any time.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 or 40 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order during such times as the restrictions referred to in article 5 are in operation.

Suspensions

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 are suspended during such times as the restrictions specified in article 6 are in operation.

Application

9. (1) The restrictions and prohibitions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

10. The maximum duration for this Order is 18 months.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Mehefin 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

10 June 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Cyfyngu Dros Dro ar Gerbydau sy'n Uwch na 5.0 metr/ yn Lletach na 3.0 metr

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A5 wrth Bont Waterloo, ger Betws-y-coed i gyfeiriad y gogledd hyd at bwynt 1 cilometr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r A548 yn Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 30 a 40 milltir yr awr Dros Dro, Dim Goddiweddyd Dros Dro a Chyfyngu Dros Dro ar Aros ar unrhyw adeg

1. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) yn Sir Conwy i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â chylchfan yr A470/A496 ym Mlaenau Ffestiniog yn sir Gwynedd.

2. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A494 yn y Ddwryd yn Sir Ddinbych i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at bwynt 50 metr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo o'r enw Bwthyn Ogwen ger Llyn Ogwen yn Sir Gwynedd.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Restriction of Vehicles over 5.0 metres in Height/ 3.0 metres in Width

The length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of its junction of the A5 trunk road at Waterloo Bridge, near Betws-y-Coed in a northerly direction to a point 1 kilometre north-west of its junction with the A548 at Llanrwst in the County Borough of Conwy.

SCHEDULE 2

Temporary 30 and 40 miles per hour Speed Limit, No Overtaking and Restriction of Waiting at any time

1. The length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of Junction 19 (Glan Conwy Interchange) in the County of Conwy in a south-westerly direction to the centre-point of its junction with the A470/A496 roundabout at Blaenau Ffestiniog in the County of Gwynedd.

2. The length of the A5 trunk road that extends from the centre-point of its junction with the A494 at Druid in the County of Denbighshire in a north-westerly direction to a point 50 metres north-west of the property known as Ogwen Cottage at Llyn Ogwen in the County of Gwynedd.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R A5
(GER LLANRWST, YN SIROEDD CONWY,
GWYNEDD A DINBYCH) (GWAHARDDIADAU
A CHYFYNGIADAU DROS DRO AR
GERBYDAU) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffyrdd a'r rhai sy'n mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ar gefnffyrdd yr A470 a'r A5, neu gerllaw iddynt, ger Llanrwst, yn siroedd Conwy, Gwynedd a Dinbych.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

- i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, rhag mynd ar y darn o'r A470 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn yr Atodlen honno hefyd;
- ii) gwahardd cerbydau sy'n uwch na 5.0 metr neu'n lletach na 3.0 metr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn yr Atodlen honno hefyd;
- iii) gosod terfyn cyflymder o naill ai 30 neu 40 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
- iv) gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
- v) gwahardd pob cerbyd rhag aros ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd yr amseroedd a'r dyddiadau yn amrywio fel y'u nodir gan y system rheoli traffig.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 18 Mehefin 2019 ac yn parhau hyd 08:00 o'r gloch ar 31 Hydref 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r digwyddiad a'r gwaith cysylltiedig neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

**THE A470 AND A5 TRUNK ROADS (NEAR
LLANRWST, IN THE COUNTIES OF CONWY,
GWYNEDD AND DENBIGHSHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITIONS AND
RESTRICTIONS OF VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to ensure the safety of road users and those attending the National Eisteddfod event on or near the A470 and A5 trunk roads near Llanrwst, in the Counties of Conwy, Gwynedd and Denbighshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

- i) prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, from proceeding on the length of the A470 specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in that Schedule;
- ii) prohibit vehicles over 5.0 metres in height or 3.0 metres wide from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in that Schedule;
- iii) impose either a 30 or 40 mph speed limit on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Notice;
- iv) prohibit all vehicles from overtaking on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Notice;
- v) prohibit all vehicles from waiting on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Notice. Times and dates will vary as indicated by traffic management.

The prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently from 08:00 hours on 18 June 2019 and remain until 08:00 hours on 31 October 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the event and associated works need to be rescheduled or consequential or other work is required.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate (Detholer: Offerynnau statudol lleol/Gorchymynion traffig dros dro/2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate (Select: Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Cyfyngu Dros Dro ar Gerbydau sy'n Uwch na 5.0 metr/ yn Lletach na 3.0 metr a Llwybrau Eraill

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A5 wrth Bont Waterloo, ger Betws-y-coed i gyfeiriad y gogledd hyd at bwynt 1 cilometr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r A548 yn Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd dilyn y llwybr dargyfeirio ar yr A55 hyd at Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), yna ymuno â'r A5 a pharhau tua'r dwyrain i ymuno â'r A470 tua'r de wrth Bont Waterloo.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd dilyn y llwybr dargyfeirio ar yr A5 wrth Bont Waterloo, yna ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) a pharhau tua'r gogledd hyd at Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy).

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 30 a 40 milltir yr awr Dros Dro, Dim Goddiweddyd Dros Dro a Chyfyngu Dros Dro ar Aros ar unrhyw adeg

1. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) yn Sir Conwy i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â chylchfan yr

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Restriction of Vehicles over 5.0 metres in Height/ 3.0 metres in Width and Alternative Routes

The length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of its junction of the A5 trunk road at Waterloo Bridge, near Betws-y-Coed in a northerly direction to a point 1 kilometres north-west of its junction with the A548 at Llanrwst in the County Borough of Conwy.

The alternative route for southbound traffic will be to follow the diversion route on the A55 to Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), then join the A5 and continue eastbound to join the A470 southbound at Waterloo Bridge.

The alternative route for northbound traffic will be to follow the diversion route on the A5 at Waterloo Bridge, then join the A55 at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange) and continue northbound to Junction 19 (Glan Conwy Interchange).

SCHEDULE 2

Temporary 30 and 40 miles per hour Speed Limit, No Overtaking and Restriction of Waiting at any time

1. The length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of Junction 19 (Glan Conwy Interchange) in the County of Conwy in a south-westerly direction to the centre-point of its junction

A470/A496 ym Mlaenau Ffestiniog yn sir Gwynedd.

2. Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A494 yn y Ddwryd yn Sir Ddinbych i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at bwynt 50 metr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo o'r enw Bwthyn Ogwen ger Llyn Ogwen yn Sir Gwynedd.

with the A470/A496 roundabout at Blaenau Ffestiniog in the County of Gwynedd.

2. The length of the A5 trunk road that extends from the centre-point of its junction with the A494 at Druid in the County of Denbighshire in a north-westerly direction to a point 50 metres north-west of the property known as Ogwen Cottage at Llyn Ogwen in the County of Gwynedd.